Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cefnogi gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch: canllawiau a dyraniadau 2024/25

**Dyddiad:** 17 Hydref 2024
**Cyfeirnod:** Medr/2024/03

**At:** **Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru**

**Ymateb erbyn:** 1 Tachwedd 2024 (Atodiad B); 17 Hydref 2025 (Atodiad A)
**Mwy o wybodaeth:**

Orla Tarn | orla.tarn@medr.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn yn darparu canllawiau i gefnogi gwrth-hiliaeth a chydraddoldeb hil mewn addysg uwch, a dyraniadau cyllid gwrth-hiliaeth, disgwyliadau o ran cyllid cyfatebol, a gofynion monitro ar gyfer 2024/25.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn darparu canllawiau i gefnogi gwrth-hiliaeth a chydraddoldeb hil mewn addysg uwch, a dyraniadau cyllid gwrth-hiliaeth, disgwyliadau o ran cyllid cyfatebol, a gofynion monitro ar gyfer 2024/25.

2. Cyfeirid yn flaenorol at y canllawiau a'r cyllid yma fel 'cydraddoldeb hil', ond cyfeirir ato fel cyllid gwrth-hiliaeth ers 2022 a rhyddhau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

3. Darparwyd y cyllid hwn yn wreiddiol yng Nghylchlythyr CCAUC W22/05HE: Ymgynghoriad ar gyllid i gefnogi cydraddoldeb hil mewn addysg uwch, i ymdrin â gwrth-hiliaeth a chefnogi newid diwylliant mewn addysg uwch, yn unol â datblygiadau polisi hil, mynediad a llwyddiant a'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Roedd y cyhoeddiad cychwynnol yn cynnwys amodau cyllid cyfatebol a'r disgwyliad bod prifysgolion yn ennill siarter cydraddoldeb hil erbyn 2024/25. Cadarnhaodd yr holl brifysgolion wrth CCAUC eu bod yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiad hwn erbyn diwedd 2025.

4. Dylid darllen y cyhoeddiad hwn ar y cyd â chylchlythyr CCAUC W23/06HE: Addysg uwch ddiogel a chynhwysol: cefnogi addysg cydraddoldeb ac amrywiaeth.

5. Roedd llythyr cylch gwaith CCAUC 2024-25 (paragraff 10), a gyhoeddwyd cyn pontio i Medr, yn canmol gwaith sector addysg uwch Cymru o ran hybu cyfle cyfartal, gan gynnwys trwy ei waith tuag at y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

6. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i Gymru Wrth-hiliol erbyn 2030. Ar adeg ysgrifennu, mae Llywodraeth Cymru'n diweddaru ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i sicrhau y gwneir cynnydd cyflym yn erbyn targedau trosfwaol. Bydd camau gweithredu diwygiedig, gan gynnwys ar gyfer y sector addysg drydyddol. Rydym yn disgwyl i brifysgolion ystyried y camau gweithredu hyn pan gânt eu rhyddhau.

## Dyletswyddau a chyfrifoldebau Medr

7. Daeth Medr yn weithredol ar 1 Awst 2024 yn dilyn cau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar 31 Gorffennaf 2024.

8. Mae dyletswydd strategol ar Medr i hybu cyfle cyfartal mewn addysg drydyddol. Mae Paragraff 3.1 o'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (fel y'i pasiwyd) yn nodi fel a ganlyn: "*Rhaid i'r Comisiwn hybu -*
    a) *cynyddu cyfranogiad, gan bersonau sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, mewn addysg drydyddol Gymreig;*
    b) *cynyddu cyfranogiad, gan bersonau sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, mewn gwaith ymchwil ac arloesi a wneir yng Nghymru;*
    c) *cadw myfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol hyd at ddiwedd cyrsiau addysg drydyddol Gymreig;*
    d) *lleihau unrhyw fylchau o ran cyrhaeddiad mewn addysg drydyddol Gymreig rhwng grwpiau gwahanol o fyfyrwyr pan fo'r gwahaniaethau yn codi*

*oherwydd ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol;* ac

e) *darparu cymorth i fyfyrwyr sy'n gorffen cyrsiau addysg drydyddol Gymreig sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i barhau â'u haddysg drydyddol, dod o hyd i gyflogaeth neu ddechrau busnes".*

9. Mae'r [Ddeddf]() wedyn yn diffinio 'grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol' fel a ganlyn:

   a) *"Mewn perthynas ag addysg drydyddol, grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol Gymreig o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol, a*

   b) *Mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi, grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn gwaith ymchwil ac arloesi a wneir yng Nghymru o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol."*

10. Mae Paragraffau 3.134 a 3.135 o'r [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru): Memorandwm Esboniadol]() yn ei gwneud yn ofynnol i Medr "*sicrhau bod amodau cofrestru parhaus pob darparwr cofrestredig yn cynnwys amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gyflawni canlyniadau mesuradwy yn ymwneud â chyfle cyfartal.*" Bydd Medr yn datblygu ac yn ymgynghori ynghylch y broses gofrestru i ddisodli'r broses cynlluniau ffioedd a mynediad gyfredol a fydd yn gweithredu rhwng 2025/26 a 2026/27.

11. Yn ogystal ag amodau sy'n ymwneud â chyfle cyfartal, bydd Medr yn cyflwyno amod cofrestru sy'n ymwneud â llesiant a diogelwch staff a myfyrwyr/dysgwyr. Mae Paragraff 3.142 o'r [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru): Memorandwm Esboniadol]() yn nodi fel a ganlyn: "*Bydd yr amodau cychwynnol a pharhaus yn ymwneud â chefnogaeth ar gyfer a hyrwyddo lles myfyrwyr a staff yn cyflwyno gofynion rheoleiddiol newydd i ddarparwyr y rhagwelwyd y byddent yn cwmpasu materion fel iechyd meddwl, llesiant a diogelwch dysgwyr a staff yn y darparwr. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn nodi a chyhoeddi gofynion y mae'n rhaid i ddarparwyr cofrestredig eu bodloni o ran eu trefniadau mewn perthynas â'r amodau cychwynnol a pharhaus. O ran lles myfyrwyr a staff, rhagwelir y byddai'r 'trefniadau' yn cynnwys polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau cymorth ar gyfer llesiant a diogelwch myfyrwyr a staff. Yn y cyd-destun hwn, mae 'llesiant' yn golygu llesiant emosiynol ac iechyd meddwl ac mae 'diogelwch' yn golygu rhyddid rhag niwed gan gynnwys aflonyddu, camymddwyn, trais (gan gynnwys trais rhywiol), a throseddau casineb."*

12. Bydd Medr yn gweithio gyda phrifysgolion a cholegau yn 2024/25 ac yn ystyried goblygiadau gweithio yng nghyd-destun addysg drydyddol, gan rannu arfer perthnasol fel y bo'n briodol. Roedd CCAUC yn aelod o'r Grŵp Llywio Cymru Wrth-hiliol ar gyfer Addysg Bellach cyn ei gau, i oleuo a chefnogi'r broses o bontio i sefydliad â ffocws ar addysg drydyddol.

13. Wrth i Medr ddatblygu ei bolisïau, byddwn yn gweithio gyda'r sector addysg drydyddol a phartneriaid i gytuno ar flaenoriaethau, terminoleg ac adolygu data. Efallai y byddwn yn cyhoeddi canllawiau atodol lle y bo'n briodol wrth i'r gwaith hwn ddod i fwcl.

**Diben cyllid gwrth-hiliaeth**

14. Mae'r cyllid hwn wedi'i fwriadu i atal anghydraddoldeb, mynd i'r afael â hiliaeth a rhoi cymorth i wreiddio arfer gwrth-hiliol mewn prifysgolion ac yn y sector addysg drydyddol ehangach, cefnogi newid diwylliant, a chyfrannu at gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

15. Dylai'r cyllid gyfrannu at waith prifysgolion i ennill nod siarter cydraddoldeb hil erbyn mis Gorffennaf 2025, fel a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

16. Er bod y cyllid hwn wedi'i fframio o ran hil ac ethnigrwydd, dylai prifysgolion ystyried sut y bydd mynd i'r afael â gwrth-hiliaeth yn croestorri â hil gan gynnwys, ymhlith materion eraill, aflonyddu, trais a cham-drin ar sail hunaniaeth, llesiant ac iechyd meddwl, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a chrefydd a chred.

**Dyraniadau ac amodau'r cyllid yn 2024/25**

17. Yn 2024/25, mae'r dyraniadau cyllid:
    i. yn amodol ar ymrwymiad gan brifysgolion i neilltuo dyraniadau cyllid cyfatebol (fel yn 2022/23 a 2023/24);
    ii. yn defnyddio data myfyrwyr HESA ar gyfer 2022/23, sy'n seiliedig ar boblogaeth gofrestru safonol HESA, wedi'i lleihau i gyfrif pennau (h.y. os oes gan fyfyriwr fwy nag un cofrestriad, cânt eu cyfrif unwaith);
    iii. yn defnyddio data myfyrwyr sy'n cynnwys y corff myfyrwyr cyfan: pob dull, lefel a gwlad y maent yn hanu ohoni;
    iv. yn seiliedig ar ddata HESA ar gyfer 2022/23 sydd wedi cael ei wirio gan y brifysgol;
    v. fel sy'n arferol gennym, yn cynnwys data myfyrwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru o fewn data a dyraniad Prifysgol De Cymru; ac
    vi. yn mynd i fod yn cael eu gwneud fel un taliad ym mis Tachwedd 2024, yn amodol ar gael adroddiadau monitro gwrth-hiliaeth 2023/24.

18. Ein disgwyliadau ar gyfer defnyddio cyllid cyfatebol yw:
    i. na ddylai dyraniad Medr arwain at unrhyw leihad yn yr adnoddau a ddarperir ar hyn o bryd gan brifysgolion ar gyfer datblygiadau gwrth-hiliaeth, gan gynnwys eu hymrwymiad i ennill siarter;
    ii. bod prifysgolion yn neilltuo adnoddau ychwanegol i gefnogi camau gweithredu gwrth-hiliaeth, y tu hwnt i gyfanswm dyraniad Medr o £1m;
    iii. lle mae unrhyw weithgareddau neu wasanaethau gwrth-hiliaeth presennol yn cael eu cyllido trwy'r cynllun ffioedd a mynediad neu o ffynonellau eraill, y gall y gweithgareddau a'r gwasanaethau hyn gael eu cynyddu gan Medr neu gyllid cyfatebol y brifysgol. Lle digwydd hyn, rhaid i'r brifysgol ei gwneud yn glir yn yr holl adroddiadau a ffurflenni monitro gwrth-hiliaeth sut, ac i ba lefel, y mae'r cyllid hwn wedi gwella gweithgareddau a gwasanaethau, a gall hyn fod yn destun gwaith archwilio gennym ni;
    iv. bod y cyllid cyfatebol a dyraniad Medr yn arwain at gynnydd yng nghyflymder a chynnydd gwaith i fynd i'r afael â hiliaeth er mwyn gwreiddio arferion gwrth-hiliol, i wella cydraddoldeb hil ac i ennill siarter; ac
    v. y gellir defnyddio cyllid cyfatebol neu gyllid Medr i dalu costau tanysgrifiadau aelodaeth perthnasol, hyfforddiant a hwylusir yn allanol neu arbenigedd allanol arall.

19. Mae dyraniadau 2024/25 fel a ganlyn:

| **Prifysgol** | Dyraniad CCAUC yn 2024/25 (gyda therfyn isaf o £50K) | Cyllid cyfatebol y Sector yn 2024/25 (dim terfyn isaf) | Cyfanswm 2024/25 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Prifysgol De Cymru | 159,031 | 159,031 | 318,062 |
| Prifysgol Aberystwyth | 53,590 | 53,590 | 107,179 |
| Prifysgol Bangor | 72,491 | 72,491 | 144,981 |
| Prifysgol Caerdydd | 218,948 | 218,948 | 437,896 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 111,507 | 111,507 | 223,014 |
| Prifysgol Abertawe | 144,028 | 144,028 | 288,057 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 90,446 | 90,446 | 180,891 |
| Prifysgol Wrecsam | 51,288 | 51,288 | 102,576 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 98,671 | 98,671 | 197,343 |
| **Cyfanswm** | 1,000,000 | 1,000,000 | 2,000,000 |

**Adnoddau a Gwybodaeth**

20. Mae Universities UK wedi cyhoeddi dau bapur briffio ar grefydd a chred a ddylai oleuo ystyriaethau i gydraddoldeb hil: Tackling antisemitism: practical guidance for universities (Mehefin 2021) a Tackling islamophobia and anti-Muslim hatred: practical guidance for universities (Rhagfyr 2021). Mae'r papurau briffio hyn yn rhan o gyfres changing the culture ehangach Universities UK, sy'n nodi tystiolaeth ac argymhellion mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, aflonyddu a throseddau casineb sy'n effeithio ar fyfyrwyr a staff prifysgolion.

21. Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaeth y Sefydliad Polisi Addysg Uwch gyhoeddi Gypsies, Romas and Travellers: The ethnic minorities most excluded from UK education. Mae'r adroddiad yn amlygu heriau i ddysgwyr sy'n Sipswn, Roma a Theithwyr, gan hefyd amlygu arfer gorau sy'n bodoli ledled y DU, gan gynnwys yr adduned, GTRSB[1] into Higher Education Pledge, a gyflwynwyd gan Brifysgol Newydd Swydd Buckingham yn 2021, sy'n nodi ymrwymiad gan lofnodwyr i:
   i. enwi pwynt cyswllt ar gyfer myfyrwyr a darpar fyfyrwyr sy'n Sipsiwn, Teithwyr, Roma, Siewmyn a Chychwyr;
   ii. monitro data ar fyfyrwyr a niferoedd y staff sy'n Sipsiwn, Teithwyr, Roma, Siewmyn a Chychwyr;

[1] Defnyddir GTRSB gan Brifysgol Newydd Swydd Buckingham fel acronym ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr, Roma, Siewmyn a Chychwyr. Mae Medr yn bwriadu osgoi defnyddio acronymau i ddisgrifio pobl ond rydym yn cydnabod eu bod yn cael eu defnyddio mewn rhai adnoddau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn.

iii. creu diwylliant cefnogol a chroesawgar ar gyfer myfyrwyr sy'n Sipsiwn, Teithwyr, Roma, Siewmyn a Chychwyr;
iv. allgymorth ac ymgysylltiad gyda chymunedau Sipsiwn, Teithwyr, Roma, Siewmyn a Chychwyr lleol; a hefyd
v. cynnwys, dathlu a choffau diwylliannau a chymunedau Sipsiwn, Teithwyr, Roma, Siewmyn a Chychwyr.

22. Mae tair prifysgol yng Nghymru wedi ennill statws Prifysgol Noddfa; mae'r fenter yn cydnabod ac yn dathlu prifysgolion sydd wedi gwneud gwaith tuag at werthoedd ac egwyddorion y Siarter Dinas Noddfa 2022-25, ac sy'n ymgorffori egwyddorion y rhwydwaith Dinas Noddfa (trwy strwythur 'dysgu, gwreiddio, rhannu').

23. Mae'r holl Golegau Addysg Bellach yng Nghymru'n sefydliadau ag aelodaeth gyswllt o'r Grŵp Arweinyddiaeth Pobl Dduon[2] (BLG), sy'n darparu ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu, yn ogystal â Mynegai Cynrychiolaeth Ethnig (ERI) a ddefnyddir gan brifysgolion yn Lloegr, yr Alban a rhai sefydliadau arbenigol.

24. Ym mis Mawrth 2024, fe wnaeth y Grŵp Arweinyddiaeth Pobl Dduon lansio'r Pecyn Cymorth Gwrth-hiliaeth Addysg Uwch (HEART). Cynllun ac iddo ddeg pwynt ydyw i wreiddio gwrth-hiliaeth mewn systemau addysg uwch (gan gynnwys strategaeth, addysgeg a phrofiad myfyrwyr a staff).

25. Mae Medr a'r Swyddfa Fyfyrwyr ar y cyd yn cyllido Student Space. Mae Student Space yn cyhoeddi cyngor pwrpasol ynghylch llesiant ar gyfer, a chan, fyfyrwyr addysg uwch, ac yn ddiweddar mae wedi cyhoeddi 'Bywyd fel myfyriwr Du'.

26. Mae Medr yn parhau i weithio gydag AU Ymlaen i gefnogi dwy seminar cydraddoldeb hil yn 2024/25.

### Canlyniadau a monitro

27. Dylai gwybodaeth fonitro a chanlyniadau ar gyfer y cyfnod 2024/25 adeiladu ar gynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth 2022/23 a gyflwynwyd i CCAUC ym mis Hydref 2023, a diweddariadau a gyflwynwyd i ni fel rhan o weithgarwch monitro 2023/24. Mae templed monitro ar gyfer cyflwyno gwybodaeth wedi cael ei ddarparu yn **Atodiad A**. Dylai canlyniadau a gwybodaeth fonitro 2024/25 gynnwys:
i. cynllun gweithredu cydraddoldeb hil y brifysgol ar gyfer 2024/25, gan gynnwys cynnydd a chanlyniadau hyd at fis Gorffennaf 2025; a
ii. datganiad cyllid i roi cyfrif am ddyraniad Medr **a** chyllid cyfatebol y brifysgol.

28. Rydym hefyd yn ceisio sicrwydd bod yr holl brifysgolion ar y trywydd iawn i gyflwyno cais i AU Ymlaen i ennill siarter cydraddoldeb hil erbyn mis Gorffennaf 2025, fel a ddisgwylir gan y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Rhaid i brifysgolion gadarnhau erbyn 1 Tachwedd 2024 beth yw eu llinell amser ar gyfer cyflwyno cais i ennill y nod siarter a darparu diweddariadau rheolaidd os ceir oedi. Mae templed wedi cael ei ddarparu yn **Atodiad B**.

[2] *'Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth Pobl Dduon yn defnyddio 'Pobl Dduon' fel diffiniad cynhwysol ar gyfer pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol sy'n rhannu profiad personol o effeithiau hiliaeth'*.

29. Rydym yn cydnabod y gall cynlluniau gweithredu siarter cydraddoldeb hil prifysgolion brofi'n gyfrifon boddhaol ar gyfer y mwyafrif o'r cyllid hwn a rhoi digon o sicrwydd i ni ynghylch strwythurau rheoli a llywodraethu, cerrig milltir blynyddol, cyflymder, cynnydd a wnaed ac uchelgais. Lle nad felly y mae hi, byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol

30. Os bydd Llywodraeth Cymru'n gosod disgwyliadau newydd ar gyfer addysg uwch, neu'r sector addysg drydyddol, yn ystod cyfnod y cyllid, efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth fonitro ychwanegol.

**Dyddiadau a ffurflenni monitro ar gyfer 2023/24 a chyllid ac adroddiadau 2024/25**

31. Y dyddiad ar gyfer cyflwyno gwybodaeth fonitro 2023/24 yw dydd Gwener 18 Hydref 2024. Ceir gwybodaeth am ganlyniadau yng nghylchlythyr CCAUC W23/20HE: Cefnogi gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch: canllawiau a dyraniadau 2023/24. Ar ôl ei chwblhau, dychwelwch y ffurflen fonitro (**Atodiad A** o W23/20HE) i orla.tarn@medr.cymru.

32. Dylai prifysgolion gadarnhau eu llinell amser ar gyfer cyflwyno'u cais terfynol i AU Ymlaen am siarter cydraddoldeb hil erbyn dydd Gwener 1 Tachwedd 2024. Ar ôl ei chwblhau, dychwelwch y ffurflen (**Atodiad B**) i orla.tarn@medr.cymru.

33. Y dyddiad ar gyfer cyflwyno gwybodaeth fonitro 2024/25 yw dydd Gwener 17 Hydref 2025. Ar ôl ei chwblhau, dychwelwch y ffurflen fonitro (**Atodiad A**) i jane.johns@medr.cymru a savanna.jones@medr.cymru.

**Asesu effaith ein polisïau**

34. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio ar gyfer asesu effeithiau i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Rydym yn rhagweld effaith gadarnhaol ar hil, rhyw, anabledd, oedran, crefydd a chred. Rydym wedi asesu'r effeithiau ar nodweddion economaidd-gymdeithasol ac rydym yn rhagweld effaith gadarnhaol ar gymunedau buddiant[3] a chymunedau lle[4].

35. Rydym hefyd wedi ystyried effaith y polisi hwn ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cysylltwch â ryan.stokes@medr.cymru i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.

**Rhagor o wybodaeth a chyflwyno ymatebion**

36. I gael rhagor o wybodaeth a chyflwyno ymatebion, gohebwch ag Orla Tarn (orla.tarn@medr.cymru).

[3] Cymunedau buddiant yw'r rhai sy'n rhannu hunaniaeth e.e. rhieni unigol, gofalwyr; y rhai sy'n rhannu un neu fwy nag un nodwedd warchodedig e.e. LHDTC+, pobl hŷn; grwpiau o bobl sydd wedi rhannu profiad e.e. digartrefedd, yr un system iechyd/gofal cymdeithasol leol neu wasanaeth lleol.
[4] Cymunedau lle yw'r rhai sy'n rhannu lleoliad daearyddol, (e.e. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)).

www.medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**